

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANYNYS A GYNHALIWIYD AR NOS
FAWRTH 13EG O FAWRTH 2018 YN YSGOL GYNRADD RHEWL AM 7.30 O'R
GLOCH.

PRESENNOL: Y Cyngorwyr Dewi Roberts (Cadeirydd), Siân Davies, Wyn Wilkinson, Iona Jones, Ian Hession, Mike Denman, Brynle Lloyd, Clwyd Thomas, Cyngorydd Sir Ddinbych Merfyn Parry a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Cyngorydd Arwel Jones.

2. DDATGAN DIDDORDEB - Dim yn codi.

3. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 9fed o Ionawr 2018 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

Derbyniwyd adroddiad Cyngorydd Sir Ddinbych Merfyn Parry ynglŷn ar ganlynol:-

A: Mi fydd Cyngor Sir Ddinbych yn cynnal a chadw'r llochesi fysiau ar yr A525 yn Rhewl.

B. Mae Ceri Lloyd, Swyddog Datblygiad Cynaliadwy AHBE yn edrych i mewn i'r berchnogaeth Bocs Ffon Goch yn Llanynys.

5. PWYLLGOR LLEOL EISTEDDFOD YR URDD SIR DDINBYCH 2020.

Derbyniwyd adroddiad fod Pwyllgor Lleol Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2020 wedi cael eu sefydlu bellach a'r targed lleol yw £5,000.00. Penderfynwyd yr Aelodau cyfrannu £3,000.00 tuag at yr apêl - sef £1,000.00 dros y tair blynedd ariannol nesaf.

6. CYLLID.

A. Datganiad Banc £10,777.00.

B. Taliadau:-

1. Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 31ain o Fawrth 2018 - £400.00.

2. Chostau'r Clerc am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2018 - £714.00.

3. PAYE am y chwarter yn diweddu 31ain o Fawrth 2018 - £100.00.

4. Un Llais Cymru – Tal Aelodaeth 2018/19 - £101.00.

5. Pwyllgor Lleol Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2020 – Rhodd - £1,000.00.

7. CEISIADAU CYNLLUNIO.

A. Codi adeilad allanol ar gyfer storio cyffredinol a storio ceir yn 4 Rhyd-y-Cilgwyn, Rhewl – dim gwrthwynebiad.

B. Addasiadau i sied amaethyddol yn Goed Duon Chalet, Llanrhaeadr - dim gwrthwynebiad.

8. GOHEBIAETH.

Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

9. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â chyflwr ffyrdd yn y gymuned.

10. MATERION BRYD O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH
LEOL 1972 - dim yn codi.

11. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – 08/05/18 – Ysgol Gynradd Rhewl am 7.30 p.m.